Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Datblygu pobl:

## Jacob Lewis

Mae taith Jacob gyda ni yn enghraifft o sut mae cyfleoedd, mentora cefnogol a phrofiad yn gallu llywio unigolyn i fod yn berson hyderus a galluog. Dechreuodd Jacob gyda ni fel myfyriwr ar leoliad. Dangosodd Jacob frwdfrydedd, dibynadwyedd, a gallu naturiol i ymgysylltu â phlant a phobl ifainc yn gyflym. Mae ei gynnydd yn tynnu sylw at ei ddatblygiad personol yn ogystal ag effeithiolrwydd ein llwybr datblygu.

Yn ystod ei leoliad fel myfyriwr, cyflwynodd Jacob lawer o sesiynau aml-chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ddwyieithog. Adeiladodd hyder wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc o wahanol alluoedd a dysgodd sut i addasu gweithgareddau i ddiwallu amrywiaeth o anghenion sy'n cyd-fynd â deinameg y grŵp. Dangosodd sgiliau cyfathrebu cryf a pharodrwydd i ddysgu. Roedd ei agwedd gadarnhaol, ei ddibynadwyedd, a'i allu i feithrin perthynas â chyfranogwyr yn gyflym yn amlwg.

Gan gydnabod ei botensial, fe wnaethon ni gynnig rôl hyfforddi â thâl iddo, gan roi mwy o gyfrifoldeb ac annibyniaeth iddo. Mae Jacob wedi cyflawni llawer o sesiynau o safon ar draws ysgolion, lleoliadau cymunedol, a rhaglenni yn ystod y gwyliau. Fel aelod dibynadwy o'r garfan, manteisiodd Jacob ar y cyfle i ymuno â'n prosiect GemauStryd, lle bu'n gweithio gyda phobl ifainc mewn lleoliadau cymunedol, yn aml mewn ardaloedd sydd â llai o ymgysylltiad cyffredinol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd angen sgiliau gwahanol ar gyfer y rôl yma, ac roedd Jacob yn barod am yr her. Roedd ei allu i gysylltu â phobl ifainc ac addasu i'w hanghenion yn ei wneud yn gaffaeliad i'r prosiect.

Yn ddiweddar, mae Jacob wedi dechrau yn ei rôl newydd fel Arweinydd Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn y Gymuned. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth helpu i gynyddu cyfranogiad ar draws RhCT. Mae ei daith yn enghraifft o sut mae modd i gefnogaeth, profiad gwaith, a chymhelliant personol greu llwybrau gyrfa ystyrlon mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

> ***"Mae Chwaraeon RhCT wedi fy nghefnogi dros y 9 mis diwethaf drwy roi cyfleoedd i mi ddysgu, rhwydweithio a datblygu i fod yn berson mwy hyderus a gwybodus."***
>
> *Jacob*
>
> ***"Mae datblygiad Jacob yn dystiolaeth o sut mae modd i lwybrau galwedigaethol gynhyrchu hyfforddwyr effeithiol - ac mae bellach yn amlwg ei fod yn ymarferydd effeithiol, sy'n canolbwyntio ar werthoedd. Mae ei ddylanwad yn ymestyn y tu hwnt i'r brifysgol i'r gymuned ehangach."***
>
> *Dean Parsons, uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol De Cymru*

## 198 awr wedi'u darparu

Ers dod yn hyfforddwr gyda Chwaraeon RhCT...

**Rydw i wedi cael mwy o gyfleoedd i rwydweithio a meithrin cysylltiadau â phartneriaid**

**Mae gen i fwy o hyder**

**Rydw i'n cadw'n heini yn fwy aml**

**Rwy'n teimlo fy mod wedi cael effaith gadarnhaol ym mhob un o fy rolau**

RHONDDA CYNON TAF

53434-15